

amgueddfa.cymru

AMGUEDDFA  
CYMRU

museum.wales

# YSBRYDOLIAETH I'CH BUSNES!

Cysylltwch eich busnes gyda'n profiadau,  
pobl, gwrthrychau a llefydd

[amgueddfa.cymru/cyfrannu/corfforaethol](https://amgueddfa.cymru/cyfrannu/corfforaethol)



## Rydym yn falch iawn eich bod yn ystyried ymuno â'n teulu o gefnogwyr.

Gall ein noddwyr corfforaethol fanteisio ar gyfleoedd adloniant arbennig, digwyddiadau arloesol 'tu ôl i'r llenni' a theithiau preifat o gwmpas ein harddangosfeydd.


Ein gweledigaeth yw 'Ysbrydoli Pobl, Newid Bywydau'. Rydym wedi ymrwmo i weithio tu hwnt i waliau'r Amgueddfa, mewn partneriaeth â chymunedau, sefydliadau trydydd sector abusnesau yng Nghymru, i wella ansawdd bywyd trigolion a chefnogi'r economi Gymreig trwy dwristiaeth ddiwylliannol a gwaith ymchwil arloesol ar gymdeithas ac amgylchedd Cymru.. Rydyn ni'n gweithio bob dydd er mwyn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl Cymru trwy eu hannog i fod yn rhan o fywyd diwylliannol y genedl.

Gobeithiwn y byddwch chi, trwy ddod yn aelod, yn darganfod ffyrdd newydd o fwynhau ein hamgueddfeydd fydd yn eich ysbrydoli. Edrychwn ymlaen at eich gweld yn un o'n digwyddiadau i aelodau cyn hir.

Diolch o galon

### David Anderson

*Director General,  
Amgueddfa Cymru*



**1** Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis  
National Slate Museum, Llanberis

**2** Amgueddfa Wlân Cymru, Dre-fach Felindre  
National Wool Museum, Dre-fach Felindre

**3** Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe  
National Waterfront Museum, Swansea

**4** Y Ganolfan Gasgliadau Cenedlaethol, Nantgarw  
National Collections Centre, Nantgarw

**5** Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru  
St Fagans National Museum of History

**6** Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd  
National Museum Cardiff

**7** Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru, Caerllion  
National Roman Legion Museum, Caerleon

**8** Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru, Blaenafon  
Big Pit National Coal Museum, Blaenavon

Mae Amgueddfa Cymru wrth galon bywyd diwylliannol a threftadaeth Cymru. Caiff 5 miliwn gwrthrych ac atgof o gasgliadau cenedlaethol celf, hanes a gwyddoniaeth Cymru eu defnyddio i ysbrydoli'r 1.9 miliwn o bobl sy'n ymweld â'n hamgueddfeydd cenedlaethol bob blwyddyn.

Mae trwch a safon ein casgliadau, ynghyd ag amrediad ein disgyblaethau, yn ein gwneud yn unigryw.

### Celfyddydau, Treftadaeth a Diwylliant yng Nghymru

Mae'r sector celfyddydau, treftadaeth a diwylliant yn ffynhonnell allweddol ar gyfer twf economaidd o ran swyddi, cyflogaeth a thwristiaeth ddiwylliannol. Mae'r Amgueddfa'n cyfrannu dros £83 miliwn y flwyddyn i economi Cymru mewn gwerth ychwanegol gros (2018-19).

Ein nod yw creu cyfleoedd i gynifer o bobl â phosibl fwynhau a chymryd rhan yn ein hamgueddfeydd. Caiff hyn ei nodi yn ein Gweledigaeth: **'Ysbrydoli pobl, newid bywydau'**.

Rydym yn ysbrydoli pobl i feithrin eu hunaniaeth a'u lles, i ddarganfod, mwynhau a dysgu'n ddwyieithog, a deall lle Cymru yn y byd.

Mae ein bywydau diwylliannol yn rhan annatod ohonom. Ein bwriad yw cynnwys pawb yn y drafodaeth ynghylch beth sy'n cyfri fel diwylliant, lle mae'n digwydd, pwy sy'n ei greu a phwy sy'n ei brofi. Trwy ein wyth gwahanol safle, rydym yn cyfrannu at wneud Cymru yn lle gwell i fyw, gweithio, buddsoddi ac ymweld, er budd cenedlaethau'r dyfodol.

# 'YSBRYDOLI POBL, NEWID BYWYDAU'



## Partneriaethau

Mae Amgueddfa Cymru yn cynnig platform unigryw i gwmnïau gysylltu eu brand gyda sefydliad diwylliannol uchel ei berfformiad, ac i ddiwallu eu hanghenion marchnata a gwerthiant.

Gyda chyfleoedd arbennig i ymgysylltu ac ysbrydoli cleientiaid, gweithwyr a rhanddeiliaid, mae gan ein partneriaid corfforaethol fynediad breintiedig at ein harddangosfeydd a'n digwyddiadau, ein horielau a'n gofodau digwyddiadau hyfryd.

*“Mae gweithio gyda'r Amgueddfa ar sawl project yn ddiweddar wedi bod yn brofiad gwerthfawr iawn i'r cwmni a'r staff.”*

**Dr Mike Armitage C Eng C Geol**  
Ymgynghorydd Corfforaethol (Daeareg Adnoddau)  
SRK Consulting (UK) Ltd

Drwy ein cefnogi ni, bydd eich cwmni yn ein helpu i gyflawni ein hamcanion uchelgeisiol, yn cynnwys:

- ▲ Cyrraedd ac ysbrydoli pobl Cymru a'r byd i ddarganfod, mwynhau a dysgu trwy ein hamgueddfeydd a'n casgliadau
- ▲ Gwaith ymchwil arloesol, sy'n turio'n ddyfnach ac yn holi cwestiynau ynghylch pynciau yn amrywio o'r gwyddorau naturiol a chelf i hanes a gwyddorau cymdeithasol
- ▲ Y gwaith parhaus o adeiladau a gofalu am ein Casgliadau Cenedlaethol, a'u defnyddio i ysbrydoli pobl Cymru a chenedlaethau'r dyfodol.



£83 miliwn o werth ychwanegol gros at economi Cymru



Partneriaeth gyda 120 elusen a sefydliad cymunedol

### REACH



1,887,376 o ymwelwyr i'n hamgueddfeydd cenedlaethol



Edrychodd 1.8 miliwn o bobl ar 5.9 miliwn o dudalennau ar ein gwefan



146,000 o ddilynwyr ar Facebook, Twitter a Youtube



Daeth 208,388 o blant ysgol a myfyrwyr trwy ein drysau – ni yw darparwr addysg tu allan i'r ystafell ddosbarth mwyaf Cymru

### WORK



57 arddangosfa ar draws Amgueddfa Cymru



70 project ymchwil arloesol



Dros y 10 mlynedd diwethaf mae ein gwyddonwyr wedi darganfod 400 o rywogaethau newydd o dros 65 gwlad

## Amgueddfa Cymru

Rydym yn creu pecynnau nawdd wedi'u teilwra i'ch amcanion ac anghenion busnes chi.

## Nawdd wedi'i deilwra

Mae gennym amrywiaeth o bartneriaethau yn cynnwys projectau a chymdeithasau penodol sy'n gweithio ar draws ein rhaglenni arddangosfeydd a'n hamgueddfeydd.

Mae'r buddion yn cynnwys:

- ▲ Presenoldeb marchnata o fewn ein hamgueddfa yn ystod y cyfnod nawdd, cyfleoedd hysbysebu, rhyngweithio ar gyfryngau cymdeithasol
- ▲ Cysylltiad uniongyrchol â'n hymwelwyr
- ▲ Rhwydweithio ardderchog rhwng busnesau a digwyddiadau datblygu cleientiaid
- ▲ Mynediad arbennig tu ôl i'r llenni i ymgysylltu a'ch cleientiaid, staff a rhanddeiliaid

*“Mae cydweithio gydag Amgueddfa Cymru wedi bod yn werth chweil i'r busnes. Rydym yn hapus iawn gyda'r cyfleoedd nawdd creadigol ac arloesol yr ydym wedi'u cefnogi yn yr Amgueddfa. Roedd ein project cydweithio diweddaraf yn sicr yn help i ni ennill dwy wobwr Celfyddydau a Busnes. Mae wedi bod yn bartneriaeth lwyddiannus iawn.”*

**Karen Welch**

Swyddog Cyfathrebu Corfforaethol  
Western Power Distribution



## Aelodaeth gorfforaethol

Mae aelodaeth gorfforaethol yn ffordd wych o ymwneud â'r Amgueddfa – byddwch yn ymuno â grŵp dehol o gyfranogion sy'n helpu i gefnogi rhaglen addysg arloesol yr Amgueddfa a'r casgliad syfrdanol o dros 5 miliwn o wrthrychau ac atgofion.

Mae aelodau corfforaethol yn bartneriaid allweddol a bydd ein tîm Datblygu yn gweithio gyda chi i sicrhau fod aelodaeth gydag Amgueddfa Cymru yn brofiad cofiadwy sy'n talu ar ei ganfed.

Mae ein cynllun aelodaeth corfforaethol yn cynnig tri phecyn arbennig i ateb gofynion eich busnes. Am ffi flynyddol gall eich busnes fwynhau amrediad eang o fuddion.

*“Mae gweithio gydag Amgueddfa Cymru dros y tair blynedd ddiwethaf wedi galluogi ein staff a'n cleientiaid i ymgysylltu â'r Amgueddfa a'i chefnogi, un ai trwy ddod yn Noddwyr neu trwy wirfoddoli staff. Mae Brewin Dolphin yn awyddus i arddangos ei Gyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol ac mae'r bartneriaeth hon yn rhan flaenllaw o sicrhau hyn.”*

Richard Kelly FCSI  
Cyfarwyddwr Cyfadran Brewin Dolphin Cyf



## Cynllun Aelodaeth Corfforaethol

Ffi flynyddol (+ TAW)	Cytundeb noddi Dros £10,000	Pecyn 1 Dros £5,000	Pecyn 2 £5,000	Pecyn 3 £2,000
-----------------------	--------------------------------	------------------------	-------------------	-------------------

### Lletygarwch

Ffi Llogi Cyfleusterau	3 diwrnod cyfan o ofod cyfarfod am ddim	2 ddiwrnod cyfan o ofod cyfarfod am ddim	1 diwrnod cyfan o ofod cyfarfod am ddim	½ diwrnod o ofod cyfarfod am ddim
	Gostyngiad o 50% ar logi cyfleusterau*	Gostyngiad o 50% ar logi 1 gofod digwyddiadau	Gostyngiad o 20% ar 1 gofod digwyddiadau yn y dydd*	Gostyngiad o 5% ar 1 gofod digwyddiadau yn y dydd*

### Ymgysylltu â staff a cheientiaid

Cyfleon gwirfoddoli ac adeiladu tîm	✓	✓	✓	✓
Blaenoriaeth archebu ar gyfer arddangosfeydd a digwyddiadau cyhoeddus wedi'u tocynnu	✓	✓	✓	✓
Gostyngiad o 10% yn y siop ar-lein	✓	✓	✓	✓
Gwahoddiadau i ddangosiadau preifat o arddangosfeydd	✓	✓	✓	
Mynediad am ddim i arddangosfeydd lle codir tâl (tocynnau bob blwyddyn)	x15	x10	x5	
Tocynnau am ddim bob blwyddyn i ddigwyddiadau cyhoeddus	x20	x15	x10	
Gostyngiad o 20% yn y siop ar-lein yn ystod y Gaeaf	✓	✓		

### Cydnabyddiaeth

Enw'r cwmni ar wefan Amgueddfa Cymru	✓	✓		
--------------------------------------	---	---	--	--

\*Ac eithrio Prif Neuadd Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Heb gynnwys costau cyflenwi (arlwyo, offer seinweledol ac ati) ac amser staff.



## Lletygarwch a digwyddiadau corfforaethol

Rydym yn deulu o amgueddfeydd gyda gofodau unigryw a defnyddiol ar gael i'w llogi.

Mae gennym gasgliad heb ei ail o eiddo ar draws Cymru, o dai cyfnod i gyfleusterau cynadledda modern.

Yng nghalon y brifddinas, mae gan Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd neuaddau mawr ac orielau; cyfleusterau cynadledda, ymneilltuo ac arlwyo; yn ogystal ag awditoriwm sy'n dal 300 ar gyfer perfformiadau a digwyddiadau lansio.

Clasurol, cyfoes neu wahanol: mae gennym gyfleusterau sy'n addas i chi – archebwch ar gyfer eich digwyddiad, cynhadledd neu achlysur arbennig, a chefnogwch ein gwaith.

## Wedi eich ysbrydoli? Cysylltwch â ni!

**Victorine Schurdevin**

Partneriaethau Corfforaethol

**E:** [victorine.schurdevin@amgueddfacymru.ac.uk](mailto:victorine.schurdevin@amgueddfacymru.ac.uk)

**T:** 029 2057 3245